
PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
14/07/26

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd Rhys Tudur (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Jina Gwyrfai, Dawn Lynne Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Gwynfor Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands a Sian Williams.

Aelodau Cyfetholedig: Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Gwilym Jones (NASUWT) a Elise Poulter (NEU).

Swyddogion yn bresennol: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 4 - Cynghorydd Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 - Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) a Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant).

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 - Cynghorydd Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Llŷr Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned) a Hannah Joyce (Rheolwr Rhaglen Adfywio Llechi Cymru).

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 - Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Geraint Parry, Dyfrig Siencyn; Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig) a Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) fuddiant personol yn Eitem 6 ar y rhaglen. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYLLID

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar yr hyn a gyflawnwyd yn y maes, gan gynnwys y diweddaraf ar Gynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran hyd at ddiwedd Mawrth 2026. Eglurwyd bod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi trosglwyddo i reolaeth yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol ers 1 Ebrill 2026, ond gan mai perfformiad 2025/26 oedd dan sylw, roedd y gwasanaethau digidol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Nodwyd bod

y trosglwyddiad wedi bod yn llyfn, ond bod recriwtio Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn parhau'n her.

Adroddwyd bod yr holl faterion o dan gyfrifoldeb yr Aelod Cabinet wedi eu trafod a'u craffu mewn cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad, a mynegwyd boddhad â pherfformiad yr Adran ar y cyfan. Nodwyd bod yr Adran Gyllid wedi arwain ar ddwy flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor yn ystod 2025/26, sef Rheoli Effaith Toriadau Cyllidol Cenedlaethol a'r Cynllun Digidol. Pwysleisiwyd bod yr angen i gyflawni arbedion ariannol ar draws y Cyngor yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn sicrhau cydbwysedd cyllidebol yn y tymor canolig a cheisio cadw unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor o fewn ffiniau rhesymol. Nodwyd bod gwaith yr Adran Gyllid yn y maes yn gadarn ac effeithiol, ond bod sicrhau bod arbedion yn cael eu gwireddu'n llwyddiannus ym mhob gwasanaeth yn parhau'n her.

Nodwyd bod y mesurau perfformiad yn dangos perfformiad cadarn ar y cyfan, gydag ychydig o feysydd yn parhau i dderbyn sylw. Cyfeiriwyd at lefelau uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant mandadol, ynghyd â pherfformiad cadarn y gwasanaethau Cyllid a Chyfrifeg, Cyflogau a Phensiynau. Nodwyd bod lefel y dyledion hirdymor a oedd yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Incwm yn parhau'n destun pryder ac mai hwn oedd yr unig fesur coch yn yr Adran. Nodwyd bod arwyddion o welliant a bod cynlluniau ar waith i leihau'r risg a gwella'r broses o adennill dyledion. Adroddwyd bod cyfradd casglu'r Dreth Gyngor wedi gwella, er ei bod yn parhau'n is na lefelau hanesyddol. Nodwyd bod bwriad i gyflwyno cymorth digidol ychwanegol er mwyn cefnogi'r gwasanaeth.

O ran Technoleg Gwybodaeth, nodwyd bod gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud i gryfhau'r ddarpariaeth ddigidol, gan gynnwys moderneiddio dyfeisiadau, uwchraddio systemau, ehangu dulliau gweithio digidol a rhesymoli'r seilwaith. Eglurwyd bod y gwaith wedi cyfrannu at gyflawni arbedion ariannol. Nodwyd bod digwyddiadau seibr a thoriadau gwasanaeth wedi amlygu'r angen i barhau i gryfhau gwytnwch a diogelwch y seilwaith, a nodwyd bod y materion hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy'r trefniadau Herio a Chefnogi Perfformiad.

Tynnwyd sylw at ddau adroddiad a dderbyniwyd gan archwilyr allanol yn ystod y flwyddyn. Nodwyd bod adroddiad Archwilio Cymru ar Reolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn wedi ei gyhoeddi ym mis Medi 2025, gyda'r prif argymhellid yn ymwneud â chryfhau strategaeth cronfeydd wrth gefn y Cyngor. Adroddwyd bod adroddiad ISA260 wedi ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2025 a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nodwyd bod barn ddiamod wedi ei rhoi ar Ddatganiad Cyfrifon 2024/25 ac nad oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Tynnwyd sylw at y ffaith bod canran y staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn is na'r canrannau ar gyfer yr hyfforddiant mandadol arall. Mynegwyd pryder ynghylch hyn gan bwysleisio, gan fod yr hyfforddiant yn fandadol, y dylai'r Adran anelu at sicrhau bod pob aelod o staff yn ei gwblhau.

Cyfeiriwyd at y Gwasanaeth Budd-daliadau a'r pwysau a oedd yn deillio o lefelau uchel o renti preifat a rhenti canolradd, gan nodi y gallai costau rhent uchel ei gwneud yn anodd i bobl gynilo tuag at brynu cartref.

Tynnwyd sylw at brydau ysgol am ddim, gan nodi bod darparu prydau am ddim i holl ddisgyblion cynradd yn golygu nad oedd rhai teuluoedd a fyddai wedi bod yn gymwys yn flaenorol yn gweld yr angen i gofrestru. Mynegwyd pryder bod hyn yn arwain at golli gwybodaeth bwysig, gan fod cymhwysedd am brydau ysgol am ddim yn parhau i gael ei ddefnyddio fel dangosydd amddifadedd, a nodwyd y gallai'r broblem gynyddu wrth symud disgyblion o Flwyddyn 6 i'r sector uwchradd.

Mewn ymateb i sawl sylw, nodwyd:-

- Bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud gyda'r hyfforddiant mandadol ers y data a gasglwyd ym mis Mawrth. Eglurwyd bod angen blaenoriaethu'r gwahanol gyrsgiau gan eu bod yn gofyn am ymrwymiad amser gan staff, ond bod y disgwyliad yn glir mai'r nod oedd cyrraedd 100%.
- Bod yr Adran wedi bod ymhlith y cyntaf yn y Cyngor i gyrraedd 100% o ran hyfforddiant diogelu, a bod y lefel ar gyfer hyfforddiant cam-drin domestig bron yn 100%, ac eithrio aelod o staff a oedd yn absennol yn hirdymor. Nodwyd bod yr hyfforddiant ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg yn parhau ymhlith y canrannau isaf, ond cadarnhawyd bod gwaith yn parhau i wella'r sefyllfa.
- Bod y mwyafrif o daliadau budd-dal tai bellach wedi trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol, gyda'r Cyngor yn parhau i ymdrin â grwpiau penodol megis pensiynwyr a phobl mewn mathau penodol o lety. Eglurwyd bod lefel y rhent yn seiliedig ar y Lwfans Tai Lleol, a bennwyd yn genedlaethol, a chydabuwyd bod achosion lle'r oedd lefel y budd-dal yn is na'r rhent yr oedd yn rhaid i hawlydd ei dalu.
- Bod y gronfa Taliadau Tai Dewisol yn cael ei defnyddio'n llawn bob blwyddyn i roi cymorth yn y maes.
- Bod yr Adran yn ymwybodol o'r mater ynghylch cofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim wrth i ddisgyblion symud o'r cynradd i'r uwchradd, a bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Adran Addysg i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Cyfeiriwyd at y lefel uchel o ddyled a oedd yn ddyledus gan y Bwrdd Iechyd, a chwestiynwyd ers faint o amser yr oedd yr arian wedi bod yn ddyledus a pham nad oedd wedi ei adennill. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod dyled Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn destun pryder. Nodwyd mai hen ddyledion oedd dan sylw yn bennaf, a bod y trefniadau mewn perthynas â dyledion mwy diweddar wedi gwella. Adroddwyd bod trafodaethau'n parhau gyda'r Bwrdd Iechyd.

Eglurwyd bod angen i'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru gydweithio ynghylch dyledion y Bwrdd Iechyd. Nodwyd bod profiad hanesyddol wedi dangos y gallai un awdurdod gael ei dalu os oedd yn rhoi pwysau sylweddol ar y Bwrdd Iechyd, gan adael y pum awdurdod arall i aros am eu taliadau. Adroddwyd bod y mater wedi ei adnabod ar lefel swyddogion cyllid a phrif weithredwyr, ac y bwriedir cydweithio.

Mynegwyd pryder ynghylch lefelau dyled yn gyffredinol a'r posibilrwydd bod y pwysau costau byw yn ei gwneud yn fwy anodd i drigolion dalu'r Dreth Cyngor. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd y ffigurau dyledion cyffredinol o dan yr Uned Incwm yn cynnwys dyledion Treth Cyngor.

Cwestiynwyd ymhellach lle'r oedd dyledion Treth Cyngor yn cael eu cofnodi. Mewn ymateb, eglurwyd eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfraddau casglu. Nodwyd bod trigolion gyda'r lefelau isaf o incwm a chyfalaf yn gallu bod yn gymwys i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor. Mynegwyd pryder, fodd bynnag, ynghylch carfan o bobl yr oedd eu hincwm, eu cynilion neu'u hasedau ychydig yn rhy uchel i fod yn gymwys i'r cynllun ond a oedd, serch hynny, yn cael trafferth talu. Eglurwyd bod y Cyngor yn ceisio cyfeirio unigolion o'r fath at wasanaethau megis Cyngor ar Bopeth er mwyn cael cymorth.

Tynnwyd sylw at y berthynas rhwng cyfraddau casglu Treth Cyngor a'r premiwm ar eiddo, a gofynnwyd a ellid darparu dadansoddiad cliriach o'r achosion lle nad oedd Treth Cyngor wedi ei dalu. Mynegwyd y farn y dylid gwahaniaethu rhwng unigolion a oedd yn gwrthod talu heb amgylchiadau lliniarol, achosion lle'r oedd gwall wedi digwydd, ac achosion lle'r oedd gwir anhawster i dalu. Cyfeiriwyd at achosion lle'r oedd y premiwm wedi ei godi ar eiddo a lle ystyrid bod hynny'n anghymesur o dan yr amgylchiadau, gan gynnwys eiddo gwyliau nad oedd amod cynllunio perthnasol arno. Gofynnwyd am wybodaeth o'r fath mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn rhoi gwell darlun o'r rhesymau dros y gwahaniaeth mewn cyfraddau casglu. Cyfeiriwyd at y gostyngiad cyffredinol yn y gyfradd gasglu ers 2019 a'r cyfeiriad at ailbrisio yn 2026, gan holi a allai

cynnydd mewn gwerthoedd eiddo effeithio ymhellach ar drethdalwyr Gwynedd a chyfraddau casglu.

Cwestiynwyd perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, gan nodi nad oedd y Gwasanaeth wedi cyrraedd ei dargedau. Cyfeiriwyd at adroddiad blynyddol diweddar i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio lle'r oedd nifer gymharol uchel o archwiliadau wedi derbyn barn o 'sicrwydd cyfyngedig', a chwestiynwyd a oedd hyn yn awgrymu problem gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cyflwyno'r Premiwm Treth Cyngor wedi creu her sylweddol i'r Gwasanaeth Trethi, ynghyd â'r pwysau ychwanegol a ddeilliodd o gyfnod Covid. Pwysleisiwyd na fu ymgais i guddio maint yr her.
- Bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud dros y flwyddyn flaenorol i ymateb i achosion eithriadol yn ymwneud â'r premiwm. Adroddwyd bod panel wedi ei sefydlu i ystyried ceisiadau ac achosion lle'r oedd amgylchiadau eithriadol, gan gydnabod bod rhai eiddo'n gallu cael eu dal mewn amgylchiadau nad oedd yn cyflawni bwriad gwreiddiol y premiwm.
- Nad oedd modd cyflwyno eithriad cyffredinol ar gyfer math penodol o eiddo, a bod angen ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun. Nodwyd bod y panel yn datblygu gwybodaeth dros amser ac, wrth adnabod achosion â nodweddion tebyg, bod angen sicrhau cysondeb wrth ddelio gydag achosion.
- Y gellid darparu dadansoddiad o'r ffigurau yn yr adroddiad nesaf er mwyn rhoi'r cyd-destun ychwanegol y gofynnwyd amdano.
- Bod yr ailbrisio y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad yn ymwneud ag Ardrethi Annomestig ac nid Treth Cyngor. Nodwyd y gallai'r ailbrisio, ynghyd â newidiadau i rai cynlluniau rhyddhad, greu problemau i fusnesau yn y sir, a nodwyd y byddai'r Cyngor yn gwneud yr hyn a allai i'w cefnogi.
- O ran Archwilio Mewnol, cydnabuwyd bod nifer yr adroddiadau a oedd wedi derbyn sicrwydd cyfyngedig ychydig yn uwch nag arfer, ond ni ystyriwyd bod hynny yn ddo'i hun yn arwydd o broblem gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Eglurwyd mai rôl y gwasanaeth oedd adrodd ar yr hyn yr oedd yn ei ganfod, ac y gallai cynnydd mewn adroddiadau sicrwydd cyfyngedig fod yn arwydd o faterion ehangach ynghylch rheolaethau mewnol y Cyngor. Nodwyd bod hynny'n fater i'w ystyried ar lefel corfforaethol.

Eglurwyd mai'r pryder mewn perthynas ag Archwilio Mewnol oedd adnoddau a chapasiti'r gwasanaeth yn hytrach na safon y gwaith. Nodwyd, yng nghyd-destun y drafodaeth flaenorol ar y premiwm, bod nifer o drigolion Gwynedd mewn sefyllfa lle'r oedd ganddynt asedau neu gyfalaf ond incwm cymharol isel, a phwysleisiwyd bod angen ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau ynghylch Treth Cyngor. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod yr ystyriaeth honno'n cael ei chadw mewn cof wrth ystyried achosion drwy Banel 13A. O ran Archwilio Mewnol, cadarnhawyd bod capasiti'r gwasanaeth yn fater yr oedd y Pennaeth Cyllid yn ei ystyried, a bod ymrwymiad wedi ei roi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu'r adnoddau oedd ar gael.

Adroddwyd bod nifer y staff yn y tîm Archwilio Mewnol wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd, o oddeutu 12 aelod o staff i chwech. Eglurwyd nad oedd un mesur penodol ar gyfer penderfynu faint o waith archwilio mewnol y dylid ei gyflawni, a bod lefel y gwaith yn dibynnu ar yr adnoddau a oedd ar gael. Pwysleisiwyd bod angen i'r Prif Swyddog Cyllid sicrhau nad oedd capasiti'r gwasanaeth yn gostwng i lefel lle na fyddai bellach yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau na rhoi'r sicrwydd angenrheidiol ynghylch rheolaethau mewnol. Nodwyd y byddai unrhyw gais am adnoddau ychwanegol yn gorfod dilyn proses bidio arferol y Cyngor. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, nad oedd tystiolaeth bod y cynnydd mewn adroddiadau sicrwydd cyfyngedig yn deillio'n uniongyrchol o gapasiti'r gwasanaeth, gan eu bod yn adlewyrchu canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd.

Tynnwyd sylw at y dyledion hirdymor, a oedd yn cyfateb i bron £2 filiwn, a gofynnwyd beth yn benodol oedd y cynlluniau cadarn i fynd i'r afael â'r ddyled. Cwestiynwyd a oedd perygl y byddai'n rhaid dileu rhai o'r dyledion, ac os oedd achosion llys wedi eu cychwyn i adennill yr arian. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Cabinet wedi cymeradwyo bid un-tro ym mis Mawrth a bod adnodd cyfreithiol a gweinyddol wedi ei sicrhau. Eglurwyd bod gwaith agos yn digwydd gyda'r Adrannau Plant ac Oedolion mewn perthynas â dyledion gofal, a bod trafodaethau wedi dechrau er mwyn ceisio adennill rhagor o'r symiau oedd yn ddyledus.
- Nad oedd gwybodaeth am achosion llys penodol wrth law, ond bod rhai achosion yn cael eu cyfeirio at Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor. Pwysleisiwyd nad oedd angen mynd i'r llys ym mhob achos er mwyn mynd ar drywydd dyled.
- Bod gwahaniaeth pwysig rhwng dyledion Treth Gyngor a mân ddyledion. Eglurwyd bod gan y Cyngor bwerau statudol cryfach mewn perthynas â dyledion treth, tra bod adennill man dyledion yn gallu bod yn fwy cymhleth.
- Bod cyfran o'r ddyled yn ddyled gan gorff cyhoeddus arall, lle'r oedd y Cyngor yn gobeithio gallu dod i gytundeb, a bod cyfran sylweddol arall yn ymwneud â phobl a oedd yn derbyn gofal. Pwysleisiwyd bod angen ystyried amgylchiadau'r dyledwyr cyn penderfynu a fyddai camau llys yn briodol.
- Bod dyled yn cael ei diffinio fel dyled hirdymor at ddibenion yr adroddiad pan oedd yn fwy na chwe mis oed. Eglurwyd bod rhai dyledion yn sylweddol hŷn na hynny, a bod rhai achosion yn mynd yn ôl nifer o flynyddoedd.
- Bod y Gwasanaeth Incwm yn adolygu ei arferion a'i strwythurau er mwyn gweld sut y gallai'r tîm adennill dyledion weithredu'n gynt ac yn fwy effeithlon gyda'r adnoddau cyfyngedig oedd ar gael.

Cyfeiriwyd at yr arbedion gwerth degau o filiynau o bunnoedd a gyflawnwyd dros y blynyddoedd diwethaf, a gofynnwyd, wrth edrych yn ôl ar y broses, a oedd hyder bod y systemau a ddefnyddiwyd wedi llwyddo i leihau effaith y toriadau ar wasanaethau rheng flaen. Gofynnwyd pa wersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol, o ystyried y tebygolrwydd y byddai angen rhagor o arbedion. Mewn ymateb, eglurwyd bod y Gwasanaeth Cyllid wedi dysgu drwy bob cylch o arbedion ac wedi datblygu rôl fwy cefnogol a heriol wrth asesu cynlluniau arbed. Nodwyd bod gwell dealltwriaeth erbyn hyn o ba mor realistig oedd cynllun arbed cyn iddo gael ei gymeradwyo, gan gydnabod bod cynlluniau wedi eu cyflwyno yn y gorffennol nad oedd modd eu gwireddu yn y pen draw.

Pwysleisiwyd na ddylid tybio bod gwasanaethau cefnogol megis yr Adran Gyllid yn gallu derbyn toriadau'n barhaus heb effaith, gan fod angen y capasiti cefnogol hwnnw er mwyn galluogi adrannau rheng flaen i weithredu. Serch hynny, mynegwyd y farn bod cyfleoedd pellach i wella effeithlonrwydd, yn enwedig drwy ddatblygiadau technolegol a gwneud mwy gyda'r un lefel o adnoddau neu lai. Cydnabuwyd na ellid addo y byddai'r holl arbedion angenrheidiol yn y dyfodol yn cael eu cyflawni drwy effeithlonrwydd yn unig, ond mynegwyd y farn bod cyfleoedd yn parhau i wella ffyrdd o weithio er mwyn lleihau'r angen i dorri gwasanaethau i bobl Gwynedd.

Tynnwyd sylw at y pwysau ar y Gwasanaeth Trethi yn ystod cyfnod anfon biliau Treth Cyngor ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mynegwyd pryder bod trigolion a oedd yn poeni am gynnydd yn eu biliau yn gorfod aros am gyfnodau hir i gael ateb dros y ffôn, gyda rhai wedi nodi eu bod wedi aros hyd at 45 munud. Pwysleisiwyd nad oedd pob unigolyn yn dymuno defnyddio e-bost neu aros am ymateb ysgrifenedig, a gofynnwyd a ellid darparu rhagor o staff i ateb galwadau yn ystod y cyfnodau prysur. Mewn ymateb, eglurwyd bod recriwtio a chadw staff yn y Gwasanaeth Trethi yn her sylweddol, yn enwedig gan fod y gwaith o ateb galwadau ynghylch trethi yn gallu bod yn anodd. Nodwyd y byddai'n ddymunol cynyddu nifer y staff ar adegau prysur, ond nad oedd digon o ymgeiswyr ar gael, a phwysleisiwyd na ellid addo trefniant nad oedd modd ei gyflawni.

Mynegwyd y farn y gallai Galw Gwynedd ddarparu cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnodau prysur gan fod modd rhagweld y cynnydd mewn galwadau. Mewn ymateb, eglurwyd bod y llinellau ffôn yn brysur drwy gydol y flwyddyn ac nid yn ystod y cyfnod bilio yn unig, a bod y gwasanaeth yn cydweithio'n rheolaidd â Galw Gwynedd. Nodwyd bod ymdrechion i recriwtio staff ychwanegol yn cael eu gwneud yn rheolaidd, ond bod nifer o swyddi wedi gorfod cael eu hail-hysbysebu. Cyfeiriwyd at anhawster penodol wrth

recriwtio swyddogion llys, gan nodi nad oedd modd denu ymgeiswyr hyd yn oed ar gyfer rhai swyddi dros dro.

Adroddwyd bod cynllun peilot ar waith i gyflwyno ffurflenni ar-lein er mwyn gwella'r gwasanaeth i'r rhai a oedd yn dymuno delio â materion yn ddigidol. Eglurwyd y byddai staff Treth Gyngor yn gallu cynorthwyo unigolion dros y ffôn i gwblhau'r ffurflenni, gyda'r gobaith y byddai hyn yn cyflymu'r broses ac yn rhyddhau mwy o amser i ateb galwadau.

Pwysleisiwyd nad oedd pawb yn dymuno cyfathrebu ar-lein, ac ailadroddwyd y pryder bod rhai trigolion oherwydd eu sefyllfa angen ateb cyflym yn hytrach nag aros nifer o ddiwrnodau gwaith am ymateb. Cwestiynwyd ai diffyg ymgeiswyr, yn hytrach na diffyg cyllid i gyflogi staff, oedd y prif rwstr. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod adnoddau ychwanegol wedi eu darparu yn sgil y premiwm er mwyn gallu cyflogi rhagor o staff, ond mai'r her oedd denu pobl i ymgeisio am y swyddi. Eglurwyd nad bwriad cyflwyno ffurflenni ar-lein oedd disodli'r gwasanaeth ffôn. Nodwyd mai'r bwriad oedd galluogi'r rhai a oedd yn fodlon defnyddio gwasanaeth ar-lein i wneud hynny, gan ryddhau capasiti i staff gynorthwyo'r rhai yr oedd angen iddynt ddefnyddio'r ffôn neu yr oedd yn well ganddynt wneud hynny.

Pwysleisiwyd bod gwasanaethau'r Adran yn ceisio rhoi pobl Gwynedd yn gyntaf, ond bod angen rhoi sylw i les staff. Nodwyd bod y staff a oedd yn parhau yn y Gwasanaeth Trethi dan bwysau sylweddol oherwydd yr anawsterau recriwtio, a bod angen osgoi rhoi pwysau annerbyniol arnynt. Cydnabuwyd nad oedd y gwasanaeth ar y pryd yn cyrraedd y safon orau y dymunid ei darparu i drigolion, ond cadarnhawyd bod gwahanol ddulliau'n cael eu hystyried i wella'r sefyllfa. Pwysleisiwyd bod methiant i ddenu ymgeiswyr i swyddi gwag yn cyfyngu'n sylweddol ar yr hyn yr oedd modd ei gyflawni.

Gan ddychwelyd at yr hyfforddiant mandadol, gofynnwyd faint o staff yr oedd y canrannau yn yr adroddiad yn eu cynrychioli a faint o swyddi gwag oedd yn yr Adran. Mewn ymateb, eglurwyd bod y ffigurau hyfforddiant yn cynnwys staff y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Nodwyd bod yr Adran Gyllid bellach yn cynnwys oddeutu 150 o staff ar ôl trosglwyddo'r gwasanaeth i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Cadarnhawyd nad oedd union nifer y swyddi gwag wrth law, ond ymrwymwyd i ddarparu'r wybodaeth i'r aelodau. Nodwyd mai'r Gwasanaeth Trethi oedd y maes lle'r oedd yr anhawster recriwtio mwyaf, a bod lefelau trosiant mewn rhannau eraill o'r Adran yn fwy arferol.

Cwestiynwyd a oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddyledwr unigol mwyaf y Cyngor. Cwestiynwyd a oedd y swm yn ymwneud â hen ddyledion, o ystyried bod trefniadau talu mwy diweddar wedi gwella, ac a oedd risg y byddai'n rhaid dileu'r ddyled yn y pen draw. Mewn ymateb, cadarnhawyd mai'r Bwrdd Iechyd oedd dyledwr unigol mwyaf y Cyngor. Cadarnhawyd mai hen ddyledion oedd dan sylw'n bennaf. Eglurwyd bod anghydfod yn gallu codi mewn achosion gofal ynghylch pa gyfran o'r gost a ddylai gael ei thalu gan y gwasanaeth iechyd a pha gyfran a ddylai gael ei thalu gan y Cyngor, a bod hynny'n aml yn achosi oedi. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn talu'n gymharol brydlon unwaith yr oedd cytundeb wedi ei gyrraedd.

Cydnabuwyd bod risg y byddai'n rhaid dileu rhai dyledion yn y pen draw. Nodwyd bod yr Adran yn parhau i geisio adennill dyledion hyn, ond y gallai pwynt ddod lle byddai'n rhaid derbyn nad oedd swm penodol yn debygol o gael ei dalu. Eglurwyd bod darpariaeth ar gyfer drwg dyledion wedi ei gynnwys wrth gyllidebu a pharatoi cyfrifon, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cynllunio'n ddarbodus ar gyfer y risg honno.

Gan ddychwelyd at y problemau recriwtio yn y Gwasanaeth Trethi, nodwyd bod rhai aelodau'n ymwybodol o bobl a oedd yn chwilio am waith, ond nad oedd unrhyw swyddi Cyllid i'w gweld ar dudalen swyddi gwag y Cyngor ar y pryd. Cwestiynwyd sut y gallai pobl wybod am y cyfleoedd neu ymgeisio amdanynt os nad oedd swyddi'n cael eu hysbysebu. Mewn ymateb, eglurwyd bod rhai swyddi o fewn y Gwasanaeth Trethi wedi eu hysbysebu yn y gorffennol heb ddenu unrhyw ymgeiswyr, ac o ganlyniad bod yr Adran wedi dod i'r casgliad bod angen adolygu strwythur y gwasanaeth. Nodwyd bod

gwaith ar yr adolygiad yn mynd rhagddo ac, unwaith y byddai'r strwythur newydd yn ei le yn ystod yr wythnosau dilynol, y byddai swyddi pellach yn cael eu hysbysebu.

Adroddwyd bod yr Adran yn edrych ar staff pŵl canolog y Cyngor i weld a oedd unigolion ar gael a allai lenwi rhai o'r swyddi, ac anogwyd pobl a oedd yn chwilio am waith i ymuno â'r pŵl hwnnw. Nodwyd bod trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r gwasanaeth a oedd yn rheoli'r pŵl er mwyn adnabod unrhyw unigolion addas. Nodwyd bod angen defnyddio staff asiantaeth o bryd i'w gilydd pan nad oedd modd llenwi swyddi, er nad hwnnw oedd y dewis cyntaf. Pwysleisiwyd nad oedd y gwaith yn ymwneud ag ateb galwadau ffôn yn unig, gan fod angen prosesu'r wybodaeth a dderbyniwyd wedi hynny. Adroddwyd bod y gwasanaeth wedi llwyddo i ddenu hyfforddai a dau brentis i'r maes, a mynegwyd y gobaith y byddent yn cyfrannu at ddyfodol y gwasanaeth.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- **Gofyn i'r canlynol gael ei gynnwys yn yr adroddiad perfformiad nesaf sy'n dod gerbron y Pwyllgor:**
 - **data mwy manwl wedi'i gategoreiddio yng nghyswllt casglu trethi a dyledion tymor hir.**
 - **nifer o achosion cyfreithiol yn ymwneud â dyledion tymor hir.**
 - **gwybodaeth am drefniadau recriwtio'r adran.**

5. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU TREFNIADAU DIOGELU MEWN YSGOLION

Cyflwynodd Cadeirydd yr Ymchwiliad Craffu yr adroddiad gan ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad. Eglurwyd nad ymchwiliad i achos penodol nac ymchwiliad statudol oedd hwn, ac nad ei ddiben oedd ailystyried materion a oedd eisoes wedi eu harchwilio drwy'r Adolygiad Ymarfer Plant. Nodwyd mai'r cwestiwn a osodwyd i'r Panel oedd a oedd y trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn gyson, gyda'r Panel yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth, dod i gasgliadau a chyflwyno argymhellion i'r Cabinet ac, mewn rhai achosion, i Lywodraeth Cymru.

Pwysleisiwyd nad oedd ailagor achos Foden o fewn cylch gorchwyl yr ymchwiliad, gan fod yr Adolygiad Ymarfer Plant eisoes wedi ystyried yr achos. Eglurwyd mai bwriad yr ymchwiliad oedd edrych ymlaen ac ystyried beth arall y gellid ei wneud i gryfhau trefniadau diogelu mewn ysgolion. Nodwyd bod yr ymchwiliad craffu yn un o'r ffrydiau gwaith yng Nghynllun Ymateb y Cyngor yn dilyn yr Adolygiad Ymarfer Plant, a bod gan y Bwrdd Ymateb, yr Adolygiad Ymarfer Plant a'r Ymchwiliad Craffu swyddogaethau gwahanol ond cyflenwol. Eglurwyd bod yr Adolygiad Ymarfer Plant wedi edrych yn ôl er mwyn deall yr hyn a oedd wedi mynd o'i le a'r gwersi i'w dysgu, bod y Bwrdd Ymateb yn arwain ac yn goruchwyllo gweithrediad yr ymateb corfforaethol, a bod yr Ymchwiliad Craffu wedi darparu haen ychwanegol o her annibynnol drwy ganolbwyntio ar y trefniadau a oedd ar waith mewn ysgolion heddiw ac ystyried sut i'w cryfhau ymhellach.

Adroddwyd bod ystod eang o dystiolaeth wedi ei ystyried dros gyfnod o sawl mis. Ymwelwyd ag 11 ysgol a chynhaliwyd trafodaethau gyda phenaethiaid, llywodraethwyr, staff a disgyblion, ynghyd â derbyn tystiolaeth gan swyddogion ac arbenigwyr ac ystyried canllawiau cenedlaethol, polisiau a gwaith Estyn. Nodwyd bod yr ymchwiliad wedi canfod llawer o waith da yn digwydd mewn ysgolion Gwynedd, ond pwysleisiwyd nad oedd cael polisiau da ar bapur yn ddigon ynddo'i hun a bod angen sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson ym mhob ysgol, gan bob aelod o staff ac ar bob lefel.

Ymhelaethwyd bod y 22 argymhelliad yn ffurfio sail rhaglen waith yn hytrach na rhestr o gynigion unigol. Nodwyd bod rhai o'r argymhellion yn ymwneud â phobl, gan sicrhau bod staff, llywodraethwyr a'r rhai â chyfrifoldebau diogelu yn derbyn yr hyfforddiant, y gefnogaeth a'r eglurder angenrheidiol; bod eraill yn ymwneud â systemau, gan gynnwys

cryfhau trefniadau cofnodi, monitro, rhannu gwybodaeth a sicrhau mwy o gysondeb rhwng ysgolion; a bod eraill yn canolbwyntio ar ddiwylliant, gan sicrhau bod disgyblion yn gwybod at bwy i droi am gymorth, bod eu llais yn cael ei glywed a bod pawb yn deall bod diogelu yn gyfrifoldeb ar bob unigolyn. Nodwyd bod yr argymhellion wedi eu grwpio o dan naw thema strategol, sef hyfforddiant, dealltwriaeth disgyblion, cymorth a lles, llais disgyblion, adolygu a dysgu, systemau a rhannu gwybodaeth, rhieni, gwelededd diogelu, a llywodraethu ac atebolrwydd.

Pwysleisiwyd mai un o gryfderau'r adroddiad oedd nad oedd yn dibynnu ar un newid mawr, ond yn cydnabod bod diogelu effeithiol yn dibynnu ar nifer o elfennau'n gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydlynol. Cydnabuwyd na allai unrhyw system warantu diogelwch llwyr, ond nodwyd y gellid lleihau risgiau, cryfhau systemau a sicrhau bod pryderon yn cael eu hadnabod ac yr ymatebir iddynt yn gynt, yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol. Pwysleisiwyd na fyddai'r adroddiad ynddo'i hun yn gwneud plant yn fwy diogel, ac mai'r camau a gymerid yn dilyn yr adroddiad fyddai'n gwneud y gwahaniaeth. Nodwyd felly nad diwedd proses oedd cyflwyno'r adroddiad, ond dechrau'r cam nesaf, ac y byddai llwyddiant gwirioneddol yr ymchwiliad yn cael ei fesur yn ôl gweithrediad yr argymhellion a'r gwahaniaeth y byddent yn ei wneud yn ymarferol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Nodwyd bod yr ymchwiliad wedi ei gynnal mewn ysbryd adeiladol a bod yr aelodau wedi deall pwysigrwydd diogelu plant a'r rheswm dros gynnal y gwaith. Eglurwyd bod yr ysgolion a ddewiswyd ar hap wedi cydweithio'n dda unwaith yr eglurwyd diben yr ymchwiliad. Nodwyd bod yr 11 ysgol wedi eu lleoli ar draws y sir ac yn cynnwys ysgol arbennig, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, gan roi trawstoriad eang o ysgolion Gwynedd. Adroddwyd bod yr ymateb a'r wybodaeth a dderbyniwyd yn sgil yr ymweliadau wedi bod yn werthfawr, a chydabuwyd bod cefnogaeth swyddogion wrth gydlynu'r ymweliadau a chofnodi'r dystiolaeth wedi galluogi aelodau'r Panel i ganolbwyntio ar y gwaith craffu.

Cyfeiriwyd at feirniadaeth ddiweddar o'r adroddiad yn y wasg a gofynnwyd i Gadeirydd yr Ymchwiliad ymateb i'r sylwadau a wnaed. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod beirniadaeth wedi ei chyflwyno cyn i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor, a phwysleisiwyd ei fod yn bwysig ymateb i'r feirniadaeth gan fod gweithredu'r argymhellion yn gywir yn hanfodol er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddiogelu plant yng Ngwynedd a thu hwnt. Nodwyd y byddai'r argymhellion yn fwy tebygol o gael eu gweithredu'n effeithiol pe byddai'r adroddiad a'r broses a arweiniodd ato yn cael eu deall a'u cymryd o ddifrif.

Nodwyd bod y feirniadaeth wedi ei chyflwyno gan Ms Yates, a oedd yn cynrychioli rhai o ddioddefwyr Foden ynghyd â dioddefwyr eraill. Cydnabuwyd ei bod wedi cynrychioli rhai o'r dioddefwyr ers blynnyddoedd a'i fod yn ddealladwy ei bod yn awyddus i weld newid cyflym, cadarn ac ystyrlon. Pwysleisiwyd bod yr un nod yn cael ei rannu, sef gwneud popeth posibl i sicrhau na fyddai plant yng Ngwynedd yn profi methiannau tebyg i'r rhai a welwyd yn Ysgol Friars eto.

Ailbwysleisiwyd nad ymchwiliad statudol nac ymchwiliad cyhoeddus oedd yr Ymchwiliad Craffu, ond ymchwiliad a gynhaliwyd o fewn y cylch gorchwyl a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Ailbwysleisiwyd nad oedd ailagor achos Foden na phennu cyfrifoldeb unigol o fewn cylch gorchwyl yr ymchwiliad, gan fod yr Adolygiad Ymarfer Plant eisoes wedi ymdrin â hynny. Eglurwyd mai'r dasg oedd edrych ymlaen ac ystyried beth arall y gellid ei wneud i gryfhau trefniadau diogelu mewn ysgolion Gwynedd yn y dyfodol, gan nodi y byddai ceisio cyflawni'r ddwy swyddogaeth ar yr un pryd wedi creu perygl na fyddai'r naill na'r llall wedi ei gyflawni'n effeithiol.

Cyfeiriwyd at feirniadaeth ynghylch y defnydd o'r gair "dylid" yn hytrach na "rhaid" yn yr argymhellion. Mewn ymateb, eglurwyd bod y defnydd o "dylid" yn adlewyrchu natur ymchwiliad craffu, gan nad oedd gan bwyllgor craffu'r grym i osod dyletswyddau statudol. Nodwyd mai rôl y Pwyllgor oedd gwneud argymhellion ac yna dal y Cabinet i

gyfrif am weithredu'r argymhellion. Pwysleisiwyd nad oedd hynny'n gwneud yr argymhellion yn llai pwysig, ond ei fod yn adlewyrchu'r fframwaith democrataidd yr oedd craffu'n gweithredu oddi mewn iddo.

Cyfeiriwyd at faint y sampl a'r gwaith llais disgyblion, a chydabuwyd y byddai sampl fwy bob amser yn ddymunol. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, nad gwaith llais disgyblion oedd unig sail yr adroddiad, ond ei fod yn un rhan o ystod eang o dystiolaeth a oedd yn cynnwys ymweliadau ag 11 ysgol, trafodaethau gyda llywodraethwyr, penaethiaid a staff, tystiolaeth gan Estyn, swyddogion ac arbenigwyr, ynghyd â'r fframwaith statudol. Nodwyd bod y Panel wedi dod i'w gasgliadau ar sail yr holl dystiolaeth.

Cyfeiriwyd at sylw bod gormod o bwyslais wedi ei roi ar lais y plentyn. Mewn ymateb, eglurwyd bod cynnwys llais y plentyn wedi bod yn benderfyniad bwriadol gan y Panel o'i gyfarfod cyntaf, cyn i unrhyw dystiolaeth gael ei chasglu. Nodwyd y byddai peidio â chynnwys llais disgyblion wedi bod yn destun beirniadaeth hallt a phriodol. Pwysleisiwyd nad oedd y Panel yn gweld dewis rhwng llais y plentyn ac atebolrwydd oedolion, gan fod angen i blant deimlo'n ddiogel ac yn ddigon hyderus i godi pryderon, ond bod angen i'r oedolion a oedd yn eu gwasanaethu feddu ar yr hyfforddiant, y wybodaeth a'r atebolrwydd i ymateb yn briodol. Nodwyd na allai'r naill elfen weithio'n effeithiol heb y llall.

Eglurwyd nad oedd trefn yr argymhellion yn adlewyrchu trefn eu pwysigrwydd, gan eu bod wedi eu grwpio yn ôl thema, a phwysleisiwyd bod pob un o'r argymhellion yn bwysig. Cyfeiriwyd at atebolrwydd llywodraethwyr, a nodwyd bod y Panel wedi ystyried y mater yn ofalus. Eglurwyd mai dyna pam yr oedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i gryfhau hyfforddiant llywodraethwyr, egluro cyfrifoldebau a galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried y fframwaith cenedlaethol. Mynegwyd felly mai'r gwahaniaeth rhwng y feirniadaeth a safbwynt y Panel oedd pa mor bell y dylai'r argymhellion fynd, yn hytrach na'r egwyddor ei hun.

Cyfeiriwyd at feirniadaeth nad oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw beth newydd. Mewn ymateb, ailbwysleisiwyd mai pwrpas yr Ymchwiliad Craffu oedd adeiladu ar wersi'r Adolygiad Ymarfer Plant yn hytrach na'i ailadrodd neu gymryd ei le. Nodwyd bod yr Ymchwiliad Craffu wedi gofyn cwestiwn gwahanol, sef a oedd trefniadau diogelu ysgolion Gwynedd ar y pryd yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Eglurwyd bod nifer o'r argymhellion yn mynd y tu hwnt i'r hyn a gynhwyswyd yn yr Adolygiad Ymarfer Plant, gan gynnwys galwadau am fwy o safoni cenedlaethol, cryfhau trefniadau llywodraethu, gwella trefniadau cofnodi a monitro a sicrhau mwy o gysondeb rhwng ysgolion. Pwysleisiwyd bod y ddau adroddiad yn cyflawni swyddogaethau gwahanol ond cyflenwol, gyda'r Adolygiad Ymarfer Plant yn edrych yn ôl ar y methiannau a'r Ymchwiliad Craffu yn edrych ymlaen at gryfhau'r systemau presennol.

Cyfeiriwyd at feirniadaeth bod angen gweithredu yn hytrach na chynhyrchu adroddiad arall. Cytunwyd â'r egwyddor honno, gan bwysleisio nad yr adroddiad oedd y nod terfynol ond y gweithredu a fyddai'n dilyn. Nodwyd bod yr Ymchwiliad Craffu wedi gweld yr adroddiad fel un cam mewn proses, ac y byddai llwyddiant yn cael ei fesur nid yn ôl nifer yr argymhellion ond yn ôl y camau a gymerid gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru mewn ymateb iddynt.

Cydnabuwyd nad oedd y Panel wedi honni bod ganddo'r holl atebion, a bod yr aelodau wedi bod yn ymwybodol iawn o ddifrifoldeb y pwnc a'r cyfrifoldeb a oedd arnynt. Pwysleisiwyd mai'r bwriad oedd gwneud cyfraniad adeiladol at y gwaith ehangach o gryfhau trefniadau diogelu yng Ngwynedd, ac y byddai unrhyw sylwadau neu feirniadaeth adeiladol a oedd yn arwain at gryfhau'r cynllun gweithredu neu wella trefniadau ymhellach yn cael eu croesawu. Ailadroddwyd mai'r camau a gymerid ar y cyd, yn hytrach na geiriau mewn adroddiad, fyddai'n gwneud y gwahaniaeth i ddiogelwch plant.

Croesawyd cynnwys yr adroddiad a nodwyd bod elfennau newydd wedi dod i'r amlwg. Cyfeiriwyd at yr argymhelliad ynghylch sicrhau bod enwau'r Person Diogelu Dynodedig

a'r Llywodraethwr Dynodedig Diogelu yn cael eu harddangos ar bosteri yn yr ysgol. Mynegwyd y farn y dylai'r wybodaeth fod yn weladwy y tu allan i adeilad yr ysgol ac ar wefan yr ysgol, ac y dylid darparu manylion cyswllt perthnasol o fewn y Cyngor. Pwysleisiwyd, pe byddai'r pryder yn ymwneud â rhywun o fewn yr ysgol, ei bod yn bwysig bod plant a phobl eraill yn gwybod sut i gysylltu â rhywun y tu allan i'r ysgol.

Cyfeiriwyd at systemau digidol ar gyfer cofnodi pryderon, gan gynnwys MyConcern. Cwestiynwyd a fyddai'n bosibl i swyddog priodol o'r Adran Addysg gael mynediad at y system er mwyn gallu gweld patrymau, yn enwedig mewn sefyllfa lle mai'r pennaeth oedd yn goruchwyllo'r system. Mynegwyd y farn y gallai mynediad o'r fath gynorthwyo i adnabod patrymau a sicrhau bod gwybodaeth yn dilyn plentyn wrth symud rhwng ysgolion cynradd neu wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Pwyllgor wedi codi'r mater ynghylch arddangos manylion diogelu o'r blaen, a bod tîm o bedwar swyddog yn ymweld ag ysgolion yn flynyddol i wirio'r trefniadau a sicrhau bod y gofynion perthnasol yn eu lle. Eglurwyd bod y tîm yn gymharol newydd ond ei fod erbyn hynny ar y blaen i'r amserlen o ran ymweld â'r holl ysgolion.
- Bod yr argymhelliad i arddangos manylion y personau diogelu, gan gynnwys ar lanyards, yn cael ei ystyried yn arfer da ac y byddai'r arfer hwnnw'n cael ei ychwanegu at y meini prawf a ddefnyddid gan y tîm diogelu. Nodwyd bod rhai ysgolion yng Ngwynedd eisoes yn gwneud hynny.
- Na allai'r Adran orfodi ysgol neu gorff llywodraethu i weithredu trefniant nad oedd yn ofyniad statudol. Mynegwyd rhwystredigaeth ynghylch cyfyngiadau pwerau'r awdurdod addysg, gan nodi mai argymell, gofyn ac amlygu arfer da oedd y dulliau a oedd ar gael yn aml.
- Bod angen i'r adolygiad a oedd yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ystyried yn glir ble'r oedd y gwahanol bwerau a chyfrifoldebau yn gorwedd, gan fynegi'r farn nad oedd gan swyddogion yr Adran Addysg ddigon o bwerau i fynnu bod rhai trefniadau'n cael eu gweithredu.
- Bod y Cyngor wedi buddsoddi mewn system ddigidol Bromcom newydd, gyda mwy o gynnydd wedi ei wneud yn y sector cynradd na'r sector uwchradd. Nodwyd bod symud rhwng systemau'n heriol, ond bod y gwaith yn mynd rhagddo.
- Bod ymreolaeth ysgolion yn golygu ei bod yn anodd sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio'r un system. Nodwyd y byddai ceisio sicrhau cytundeb ar draws Gogledd Cymru, Powys a Cheredigion yn fwy heriol fyth, ac felly mynegwyd cefnogaeth i Lywodraeth Cymru fandadu un system genedlaethol ar gyfer Cymru.
- Y gallai mwy nag un unigolyn gael mynediad at gofnodion diogelu a bod angen i sawl person allu cael mynediad at MyConcern.
- Bod yr awdurdod wedi comisiynu un system newydd ar gyfer rheoli gwybodaeth am blant ar draws y sir, ar gyfer y sector cynradd a'r sector uwchradd.
- Bod y broses o symud o'r hen system i'r system newydd wedi bod yn heriol iawn, ond nodwyd mai'r nod oedd sicrhau un cofnod ar gyfer pob plentyn a fyddai'n trosglwyddo'n rhwydd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Nodwyd y gallai'r awdurdod, gyda chaniatâd yr ysgol, gael trosolwg o'r cofnodion diogelu ar y system.
- Bod mynediad at MyConcern yn bosibl ond yn fwy cyfyngedig ac yn dibynnu ar ganiatâd yr ysgol.
- Bod cydweithio agos ac adeiladol rhwng yr Adran Addysg ac ysgolion Gwynedd, ac mai anaml iawn yr oedd ysgolion yn gwrthod gweithredu ar ganllawiau neu geisiadau newydd, yn enwedig yn y maes diogelu.
- Fodd bynnag, wrth i fwy o ofynion ychwanegol gael eu cyflwyno, gallai ysgolion yn y dyfodol fod yn fwy amharod i weithredu trefniadau nad oeddent yn statudol oherwydd y baich gwaith ychwanegol.

Cwestiynwyd pa bethau penodol ym maes diogelu yr hoffai'r Adran Addysg gael y grym i'w gwneud yn orfodol, y tu hwnt i gysondeb o ran y system gofnodi. Mewn ymateb, eglurwyd ei bod eisoes yn ofynnol i ysgolion gofnodi pryderon a newidiadau yn ymddygiad plant, ond bod modd dehongli natur a lefel pryder mewn gwahanol ffyrdd.

Nodwyd bod ysgolion Gwynedd yn tueddu i fod yn ofalus ac yn cofnodi'r mwyafrif helaeth o faterion a oedd yn peri pryder. Pwysleisiwyd mai un o'r newidiadau mwyaf defnyddiol fyddai cael un system genedlaethol ar gyfer Cymru, gan fod plant yn gallu symud rhwng awdurdodau lleol yn ystod eu haddysg ac nad oedd system gyson i sicrhau bod un cofnod diogelu yn dilyn y plentyn drwy gydol ei addysg. Nodwyd bod mwy nag un system yn cael ei defnyddio hyd yn oed yng Ngwynedd, gan fod dewis meddalwedd yn parhau yn nwylo ysgolion unigol a phenaethiaid.

Pwysleisiwyd nad oedd y ffaith bod gan ysgolion ymreolaeth yn golygu nad oeddent yn gwrando nac yn cydweithio â'r Adran Addysg. Nodwyd bod cydweithio agos rhwng penaethiaid a swyddogion addysg, a bod gwahanol safbwyntiau'n naturiol mewn system a oedd yn cynnwys nifer fawr o ysgolion. Eglurwyd bod rôl i'r Aelod Cabinet Addysg a'r Pennaeth Addysg wrando ar y safbwyntiau hynny ac, ar adegau, ddod i benderfyniad ynghylch yr hyn a ystyrid yn fwyaf priodol i'r sir. Mynegwyd y farn bod rôl debyg gan Lywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol, ac y gallai ysgolion ei chael yn haws pe byddai rhai penderfyniadau, megis dewis system genedlaethol, yn cael eu gwneud ar lefel Cymru yn hytrach na chan bob ysgol unigol.

Cyfeiriwyd at atebolrwydd penaethiaid, gan nodi bod penaethiaid ysgolion yn atebol i'w Cyrff Llywodraethu ac mai Cadeirydd y Corff Llywodraethu oedd eu rheolwr llinell, nid y Pennaeth Addysg. Nodwyd bod hyn yn gysylltiedig â'r adolygiad o lywodraethu ysgolion. Adroddwyd bod pwysigrwydd yr adolygiad wedi ei godi'n uniongyrchol gyda'r Gweinidog Addysg, gan bwysleisio'r angen iddo fod yn adolygiad gwirioneddol a sylfaenol lle nad oedd unrhyw opsiwn wedi ei ddiystyru. Mynegwyd y farn bod yr adolygiad yn mynd at wraidd trefniadau'r system addysg yng Ngwynedd.

Croesawyd yr adroddiad a'r pwyslais ar lais y plentyn, gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod plant yn gallu mynd at oedolyn yr oeddent yn ymddiried ynddo. Pwysleisiwyd bod diogelu'n gyfrifoldeb i'r gymuned gyfan ac nid i'r ysgol yn unig. Fodd bynnag, mynegwyd y farn nad oedd rôl yr awdurdod addysg yn ymddangos yn ddigon cryf yn yr argymhellion. Cydnabuwyd bod swyddogion yn ymweld ag ysgolion ac yn argymhell arferion, ond mynegwyd y farn bod angen arweiniad mwy cadarn mewn rhai meysydd. Cyfeiriwyd at y buddsoddiad yn Bromcom a nodwyd nad oedd pob ysgol a oedd wedi ei chynnwys yn yr ymchwiliad wedi bod yn defnyddio'r system. Mynegwyd y farn y gallai fod gan yr Adran fwy o ddylanwad ar ysgolion nag yr oedd yn ei gydnabod, gan nodi na fyddai disgwyl i ysgolion wrthod cymorth ychwanegol i gryfhau diogelu plant.

Cyfeiriwyd yn benodol at yr ystyriaeth yn yr adroddiad ynghylch a ddylai'r Adran Addysg gymryd cyfrifoldeb am ddarparu hyfforddiant i bob athro llanw. Mynegwyd y farn y gallai'r Adran Addysg chwarae rôl gryfach yn y maes hwn yn hytrach na gadael y cyfrifoldeb i benaethiaid ysgolion, a mynegwyd y dymuniad i weld yr awdurdod addysg yn gweithredu'n fwy amlwg fel cydlynnydd ar gyfer y trefniadau.

Mewn ymateb, eglurwyd bod Bromcom wedi ei gomisiynu ar gyfer pob ysgol yng Ngwynedd ac y bwriedid ei gyflwyno ym mhob ysgol. Nodwyd bod trosglwyddo'r holl ysgolion cynradd yn dasg sylweddol dros nifer o dymhorau, a bod bwriad i gwblhau'r gwaith erbyn diwedd mis Mawrth 2027. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, er bod y system yn cael ei darparu am ddim, bod gan ysgolion y dewis o hyd i beidio â'i defnyddio ac nad oedd gan y Pennaeth Addysg y grym i'w gorfodi i wneud hynny.

O ran athrawon llanw, eglurwyd mai'r ysgolion, ac nid yr awdurdod addysg, oedd yn eu cyflogi. Nodwyd bod rhai ysgolion yn defnyddio asiantaethau llanw preifat a oedd yn darparu rhestrau o athrawon a oedd wedi cwblhau gwiriadau DBS a hyfforddiant diogelu. Adroddwyd bod Gwynedd yn cynnal rhestr o athrawon llanw, er nad oedd adnodd penodol ar gael i'w chynnal. Eglurwyd bod y rhestr yn cael ei llunio'n flynyddol a'i diweddarau lle bo modd, ac yn cynnwys athrawon a oedd yn dymuno gwneud gwaith llanw yng Ngwynedd ac a oedd wedi cwblhau'r gwiriadau DBS perthnasol. Nodwyd bod hyfforddiant wedi ei gynnig iddynt, ond nad oedd yn orfodol iddynt ei fynychu gan nad oeddent yn gyflogedig i'r awdurdod.

Pwysleisiwyd mai cyfrifoldeb yr ysgol oedd sicrhau, wrth ddefnyddio athro llanw, eu bod yn derbyn yr hyfforddiant diogelu priodol ac yn gwybod at bwy i droi yn yr ysgol pe byddai pryder yn codi. Nodwyd bod yr awdurdod yn gallu comisiynu systemau a darparu cefnogaeth, ond nad oedd ganddo'r pŵer i orfodi ysgol i ddefnyddio system benodol nac i orfodi athrawon llanw i fynychu hyfforddiant heb unrhyw sicrwydd o waith.

Mynegwyd cefnogaeth i'r adroddiad a'r argymhellion, a awgrymwyd y dylid anfon copi cryno o'r argymhellion at bob pennaeth ysgol, gan gynnwys rhagair Cadeirydd yr Ymchwiliad. Cyfeiriwyd at Argymhelliad 1, sef sicrhau bod hyfforddiant o lefel briodol yn cael ei gynnig yn flynyddol i holl staff a llywodraethwyr ysgolion. Cwestiynwyd a oedd hyn yn awgrymu bod yr Ymchwiliad wedi canfod gwendid yn yr hyfforddiant presennol. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd tystiolaeth gref o ddiffyg penodol yn yr hyfforddiant, ond bod y Panel wedi dymuno pwysleisio'r egwyddor bod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. Nodwyd bod angen sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperid o safon uchel, yn gyson, ac yn cael ei gwblhau gan bawb.

Cyfeiriwyd at ddealltwriaeth disgyblion o'r drefn ddiogelu a Pholisi Amddiffyn Plant 2025. Nodwyd bod y polisi i fod i gael ei gymeradwyo gan y Person Diogelu Dynodedig, y Llywodraethwr Dynodedig Diogelu a'r Pennaeth, ond nad oedd cyfeiriad at Gadeirydd y Corff Llywodraethu nac at Gadeirydd y Cyngor Ysgol ar ran y disgyblion. Nodwyd bod addewid wedi ei roi mewn cyfarfod blaenorol y byddai fersiwn hawdd ei darllen o'r polisi ar gael i ddisgyblion, ac y dylai fod wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r polisi ym mis Hydref 2025. Cwestiynwyd pam nad oedd y fersiwn honno wedi ei darparu hyd yma. Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai fersiwn hawdd ei ddarllen ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r polisi diwygiedig ym mis Medi.

Cyfeiriwyd at waith Dr Ceryl Teleri Davies ar lais disgyblion, gan nodi ei bod wedi cwrdd â 57 o ddisgyblion ac wedi cydnabod nad oedd cyfle wedi bod i gynnwys disgyblion hŷn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod wyth maes i'w gwella neu eu datblygu wedi eu nodi mewn ysgolion cynradd, tra bod deg cryfder wedi eu nodi yn yr ysgolion uwchradd heb unrhyw feysydd datblygu. Nodwyd bod hyn yn ymddangos yn anghyson. Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr Ymchwiliad wedi cynnwys nifer o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys penaeithiaid, cydgysylltwyr diogelu, staff, llywodraethwyr a disgyblion, ond cwestiynwyd pam nad oedd llais rhieni wedi ei gynnwys. Mynegwyd y farn y gallai holiadur neu arolwg fod wedi cael ei ddefnyddio i gasglu barn rhieni ynghylch pa mor glir a chyson oedd y trefniadau diogelu ar draws ysgolion.

Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch hyfforddiant, eglurwyd bod ystod o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac ar wahanol lefelau yn ôl y cyfrifoldebau perthnasol. Nodwyd mai mater gwahanol oedd sicrhau bod unigolion yn ymrwymo i gwblhau'r hyfforddiant. Eglurwyd mai un o'r gwersi a ddaeth o'r ymchwiliad oedd yr angen i fonitro'n fwy gofalus bod Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu, er enghraifft, yn cwblhau'r hyfforddiant diogelu mandadol yn amserol, ac i sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael effaith.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg fod newid diwylliant eisoes wedi dechrau, gyda'r Cyngor yn ceisio bod yn fwy agored i graffu allanol, i sylwadau ac i awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella trefniadau. Cyfeiriwyd at sefydlu'r Bwrdd Ymateb yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd Plant Cymru. Nodwyd bod aelodau'r Cyngor, swyddogion, ynghyd ag arsylwyr o Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn rhan o'r Bwrdd. Eglurwyd bod y Bwrdd yn craffu ar dros 57 o ffrydiau gwaith, heb gynnwys yr is-ffrydiau cysylltiedig.

Adroddwyd bod sawl adroddiad chwarterol wedi ei gyflwyno gan Gadeirydd y Bwrdd i'r Cabinet ac ar gael yn gyhoeddus, ynghyd â phapurau'r Bwrdd. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi adrodd ei fod yn fodlon â'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud, bod y gwaith yn cael ei gyflawni mewn modd amserol a bod nifer o'r tasgau eisoes wedi eu cwblhau. Cyfeiriwyd at adroddiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn a oedd wedi

edrych yn benodol ar drefniadau diogelu. Nodwyd bod argymhellion yr adroddiad hwnnw'n cael eu gweithredu ac y byddai argymhellion yr Ymchwiliad Craffu yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r gwaith hwnnw.

Adroddwyd bod gwaith cychwynnol wedi ei wneud i asesu statws y 22 argymhelliad, a bod saith, yn ôl yr asesiad cychwynnol, wedi eu cwblhau'n llawn, 12 wedi eu cwblhau'n rhannol a thri heb eu gweithredu hyd yma. Nodwyd bod rhai o'r argymhellion heb eu gweithredu yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yr angen am un system cofnodi genedlaethol ar draws rhanbarthau ac awdurdodau. Eglurwyd bod sefyllfa debyg yn bodoli mewn perthynas ag argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant, gan fod rhai ohonynt yn faterion i Lywodraeth Cymru weithredu arnynt.

Nodwyd y byddai diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn yr hydref ar waith y Bwrdd Ymateb, er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwaith yn symud ymlaen yn drylwyr. Adroddwyd bod y Bwrdd Sicrwydd a sefydlwyd gyda Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd. Nodwyd y byddai'r trefniant yn parhau yn dilyn newid Llywodraeth, a bod cyfarfod pellach eisoes wedi ei drefnu.

Pwysleisiwyd bod gwaith sylweddol yn cael ei gyflawni ac nad oedd y Cyngor yn anwybyddu'r argymhellion nac yn methu â gweithredu. Nodwyd bod penderfyniad clir wedi ei wneud i newid polisiâu, gweithdrefnau a diwylliant er mwyn gwneud popeth posibl i atal methiannau tebyg i'r rhai a welwyd yn Ysgol Friars rhag digwydd eto. Cyfeiriwyd at feirniadaeth gyhoeddus bod y Cyngor heb weithredu, a gwrthodwyd yr awgrym hwnnw gan nodi bod nifer o argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant a'r Ymchwiliad Craffu eisoes wedi eu gweithredu.

Adroddwyd bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud dros y 18 mis blaenorol o ran trefniadau diogelu a llesiant mewn ysgolion. Nodwyd bod Tîm Diogelu a Llesiant Addysg newydd wedi ei sefydlu a'i ehangu, gyda'r bwriad o ymweld â phob ysgol yn flynyddol mewn perthynas â diogelu. Eglurwyd bod y gefnogaeth i lywodraethwyr wedi ei chryfhau drwy raglen hyfforddi, llawlyfr newydd a phenodi swyddog ychwanegol i'w cefnogi, a bod yr hyfforddiant diogelu wedi ei ddiweddarau i gynnwys ymwybyddiaeth o feithrin perthynas amhriodol (*grooming*). Nodwyd bod Pennaeth a thîm rheoli newydd yn Ysgol Friars, ynghyd â newidiadau i'r Corff Llywodraethu a Chadeirydd newydd.

Cyfeiriwyd at brosesau Rhan 5, Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a nodwyd bod y trefniadau wedi eu hatgyfnerthu er mwyn sicrhau nad oedd penderfyniadau diogelu yn cael eu gwneud gan un unigolyn yn unig, a bod cofnodion a gwybodaeth hanesyddol yn cael eu gwirio bob tro pan fo cyfeiriad diogelu yn cael ei dderbyn. Adroddwyd bod archwiliad ôl-weithredol wedi ei gynnal o gyfeiriadau dros nifer o flynyddoedd er mwyn sicrhau nad oedd patrwm tebyg arall wedi ei golli. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i symud pob ysgol i un system electronig ar gyfer cofnodi gwybodaeth am blant, a fyddai'n cryfhau'r gallu i rannu gwybodaeth ar draws y sir a gwella cysondeb.

Pwysleisiwyd bod llais y plentyn yn ganolog i'r trefniadau newydd. Adroddwyd bod gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymdrech rhagweithiol i siarad â phob plentyn a oedd yn destun cyfeiriad diogelu, er mwyn sicrhau bod barn y plentyn yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Nodwyd bod y datblygiadau hyn yn dangos ymrwymiad i gryfhau trefniadau diogelu, gwella trefniadau llywodraethu a sicrhau'r gefnogaeth orau posibl i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd. Pwysleisiwyd bod y maes yn cael ei gymryd o ddifrif a bod ymrwymiad i beidio ag osgoi unrhyw waith yr oedd angen ei gyflawni.

PENDERFYNWYD

- **Cymeradwyo'r adroddiad.**
- **Gofyn am ddiweddariad gan yr Aelod Cabinet Addysg ar weithrediad fesul argymhelliad ymhen oddeutu 6 mis.**

6. ADFYWIO CANOL TREF

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned yr adroddiad gan nodi bod yr heriau a oedd yn wynebu canol trefi yn amlwg, gan gynnwys newidiadau mewn arferion siopa, twf siopa ar-lein a phwysau costau byw. Eglurwyd mai'r her oedd ail bwrpasu canol trefi a'u gwneud yn lleoedd deniadol i fyw, gweithio a threulio amser ynddynt. Nodwyd bod trafodaethau wedi dechrau gyda Llywodraeth newydd Cymru ynghylch y maes.

Ymhelaethwyd bod yr adroddiad yn adeiladu ar wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn flaenorol ac yn canolbwyntio ar weithgareddau'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio, gan gynnwys gwaith adfywio canol trefi, datblygu a gweithredu prosiectau adfywio ac ymateb i eiddo gwag. Cyfeiriwyd at y fframwaith ar gyfer trefi Gwynedd a'r Cynlluniau Creu Lleoedd a ddatblygwyd ar gyfer Bangor, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli, y Bala a Dolgellau. Nodwyd bod y cynlluniau hyn wedi eu paratoi ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn 2023.

Adroddwyd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygu a gweithredu prosiectau adfywio a'r prif raglenni grant. Nodwyd bod grantiau gwerth £31.8 miliwn wedi eu sicrhau rhwng 2023-26 ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau adfywio canol trefi ar draws y sir. Cyfeiriwyd at y prosiectau a oedd i'w gweithredu drwy Gronfa Effaith Balchder Bro a'r Gronfa Twf Leol, ynghyd â'r gwaith ar eiddo gwag yng nghanol trefi.

Ymhelaethwyd bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu mesurau perfformiad a chasglu data er mwyn gallu mesur effaith y gwaith adfywio ar ganol trefi. Cyfeiriwyd at Strategaeth Economaidd newydd y Cyngor ac at yr angen i asesu effaith prosiectau yn ogystal â monitro nifer a chyflwr eiddo gwag. Eglurwyd bod rhan olaf yr adroddiad yn crynhoi'r prif gasgliadau a'r gwersi a ddysgwyd, ynghyd â materion pellach i'w hystyried dros y misoedd dilynol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y diffiniad o eiddo gwag. Cyfeiriwyd at enghreifftiau ym Mhwlheli lle'r oedd siop yn parhau i weithredu ar lawr gwaelod adeilad ond bod y llawr uchaf yn wag, gan nodi y gallai'r sefyllfa arwain at gostau Premiwm Treth Cyngor sylweddol a rhoi pwysau ychwanegol ar hyfywedd y busnes ar y llawr gwaelod.

Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd un diffiniad syml o eiddo gwag ar draws y Cyngor, gan fod nifer o wasanaethau ac adrannau'n ymwneud ag eiddo gwag ac yn gweithredu o dan wahanol ddeddfwriaethau a rheoliadau. Nodwyd bod y diffiniadau a'r cyfnodau perthnasol felly'n gallu amrywio rhwng gwasanaethau. O ran gwaith adfywio canol trefi, eglurwyd bod y Gwasanaeth yn tueddu i ganolbwyntio ar eiddo a oedd wedi bod yn wag am fwy na blwyddyn, gan roi blaenoriaeth i adeiladau sylweddol mewn lleoliadau canolog lle'r oedd eu cyflwr yn dirywio ac yn cael effaith ar yr ardal.

Nodwyd bod gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad gwahanol strydoedd a chanol trefi, gyda rhai yn ffynnu tra bod eraill yn ei chael yn anodd iawn denu busnesau newydd. Cwestiynwyd pam yr oedd cymaint o wahaniaeth rhwng un stryd neu dref a'r llall. Mewn ymateb, mynegwyd y farn bod datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi yn ffactor sylweddol. Nodwyd bod trefi heb gystadleuaeth allanol cyfagos yn tueddu i berfformio'n well, tra bod canol trefi â datblygiadau sylweddol ar eu gyrion yn wynebu mwy o bwysau. Cyfeiriwyd at Fangor fel enghraifft amlwg, ac at Gaernarfon i raddau llai.

Eglurwyd ymhellach bod pob tref yn wahanol ac yn wynebu cyfleoedd a heriau penodol. Nodwyd bod Cynlluniau Creu Lleoedd wedi eu datblygu dros y tair blynedd flaenorol ar gyfer Caernarfon, Bangor, Porthmadog, Pwllheli, Dolgellau a'r Bala er mwyn adnabod y prif heriau a chyfleoedd ym mhob tref a llunio cynllun gweithredu penodol. Nodwyd bod trefi ledled Cymru yn wynebu cyfnod o newid sylweddol ac nad oedd un ateb syml na chyson ar gyfer pob lle. Pwysleisiwyd bod angen ailbwrpasu trefi a oedd wedi eu heffeithio gan newidiadau mewn manwerthu, gan ystyried pa ddefnyddiau a chyfleusterau a allai ddenu pobl a gwneud profiad o ymweld â chanol tref yn fwy pleserus. Nodwyd bod nifer o ffactorau allanol yn dylanwadu ar ganol trefi ac felly bod angen datblygu atebion penodol ar gyfer pob tref.

Cwestiynwyd a oedd costau parcio yn cael effaith sylweddol ar ganol trefi. Cyfeiriwyd at Borthmadog, lle gallai pobl ddefnyddio maes parcio archfarchnad heb dalu ac yna cerdded i'r stryd fawr, a gofynnwyd a oedd trefniadau o'r fath yn cynorthwyo canol y dref. Cyfeiriwyd at bryderon a gyflwynwyd gan aelodau o ardal Bethesda, o ran effaith cyflwyno tâl am yr awr gyntaf o barcio ym meysydd parcio y Cyngor ar hyfywedd busnesau'r stryd fawr. Nodwyd, er mai'r Adran Amgylchedd oedd yn gyfrifol am barcio, bod dymuniad i'r mater gael ei ystyried ar draws adrannau oherwydd ei effaith economaidd.

Mewn ymateb, cyfeiriwyd at yr adroddiad, a oedd eisoes yn nodi materion megis lefelau ardrethi busnes a ffioedd parcio fel rhwystrau posibl i gynyddu bwrlwm yng nghanol trefi. Nodwyd bod taliadau parcio yn gallu bod yn rhwystr i'r economi, ond pwysleisiwyd bod y meysydd parcio yn cynhyrchu incwm sylweddol i'r Cyngor a bod angen ystyried sut y byddai unrhyw ostyngiad mewn taliadau yn cael ei ariannu. Cyfeiriwyd at drafnidiaeth gyhoeddus fel opsiwn i rai trigolion, gan gynnwys y rhai a oedd yn gymwys i deithio am ddim ar fysiau. Mynegwyd y farn bod angen meddwl yn wahanol am y mater, ond nodwyd bod y sefyllfa ariannol fregus a'r angen i'r Cabinet ystyried toriadau pellach yn gwneud unrhyw newid yn heriol. Cadarnhawyd y byddai'r mater yn destun trafodaeth bellach gan y Cabinet.

Tynnwyd sylw at y buddsoddiad sylweddol a sicrhawyd ar gyfer adfywio canol trefi, sef oddeutu £31 miliwn, gan nodi bod yr adroddiad yn cydnabod yr anhawster o brofi effaith y buddsoddiad hwnnw. Cyfeiriwyd at gynnydd yn nifer yr eiddo gwag rhwng 2025 a 2026, yn dilyn gwelliant yn flaenorol, ac at y ffaith bod nifer o'r eiddo gwag ychwanegol wedi eu lleoli yng Nghaernarfon, Bangor, Dolgellau a Phwllheli. Cwestiynwyd sut yr oedd y Cabinet yn asesu effeithiolrwydd y strategaeth bresennol a pha dystiolaeth oedd ar gael i ddangos bod y buddsoddiad yn cael effaith hirdymor yn hytrach nag effaith dros dro.

Mewn ymateb, cydnabuwyd bod mesur effaith yn faes yr oedd angen ei wella. Eglurwyd bod y gwasanaeth yn dibynnu bron yn llwyr ar grantiau i ddatblygu a gweithredu prosiectau, ac felly bod angen gweithio o fewn canllawiau a blaenoriaethau'r prif raglenni cyllido. Nodwyd bod adroddiadau gwerthuso yn cael eu cynnal i sicrhau bod prosiectau wedi eu gweithredu yn unol â gofynion grant ac wedi cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau disgwyledig. Eglurwyd, fodd bynnag, mai'r her oedd mesur yr effaith ehangach ar y lleoliad ei hun.

Eglurwyd bod y mater wedi ei blethu i'r Strategaeth Economaidd newydd, gyda fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwahaniaeth yr oedd y Cyngor yn ceisio ei wneud. Nodwyd y byddai'r dull yn ystyried yr allbynnau uniongyrchol, y canlyniadau ar lefel uwch ac, yn y pen draw, yr effaith. Nodwyd nad oedd y model yn berffaith oherwydd y nifer fawr o ffactorau eraill a oedd yn dylanwadu ar economïau lleol, ond mynegwyd y gobaith y byddai'r strwythur newydd yn galluogi'r Cyngor i greu cysylltiad cliriach rhwng y prosiectau a weithredwyd a'r canlyniadau a welwyd. Cadarnhawyd nad oedd y gwaith hwn wedi ei wneud yn ddigonol yn y blynyddoedd blaenorol a'i fod yn faes a oedd wedi ei adnabod ar gyfer gwella.

Ychwanegwyd bod mesur y gwahaniaeth gwirioneddol, yr effaith a'r canlyniadau wedi bod yn un o'r prif ystyriaethau wrth ddatblygu'r Strategaeth Economaidd newydd. Cyfeiriwyd at yr adroddiad a oedd yn nodi'r mathau o fesurau y bwriedid eu defnyddio. Nodwyd bod mesur effaith yn parhau'n anodd oherwydd bod yr economi a'r amgylchiadau ehangach yn newid yn gyson, ond mynegwyd y gobaith y byddai Llywodraeth newydd Cymru yn gallu rhoi cymorth yn y maes.

Cyfeiriwyd at yr heriau yr oedd siopa ar-lein yn eu creu i siopau lleol. Cymharwyd perfformiad Dolgellau â Machynlleth, gan nodi bod nifer o fusnesau ym Machynlleth yn elwa o weithgaredd economaidd cysylltiedig â beicio a chyfleusterau mawr yn yr ardal gyfagos, gan gynnwys busnesau trwsio a gwerthu beiciau, ffatrioedd, gwestai a gwasanaethau eraill. Mynegwyd y farn y dylai swyddogion y Cyngor ymweld ag

enghreiffiau llwyddiannus o'r fath a chynnal trafodaethau i weld pa wersi y gellid eu dysgu a pha gymorth y gellid ei ddarparu i fentrau tebyg yng Ngwynedd.

Mynegwyd pryder bod llawer o'r cyllid a restrwyd yn yr adroddiad wedi ei ganolbwyntio ar drefi, a chwestiynwyd faint o gymorth oedd yn cael ei ddarparu i gymunedau ac ardaloedd y tu allan i'r prif drefi. Cyfeiriwyd at nifer o brosiectau yn Nolgellau a nodwyd, er gwaethaf y buddsoddiad, bod y dref yn parhau i wynebu heriau a bod busnesau lleol yn cau neu ar werth. Pwysleisiwyd yr angen i swyddogion ymweld â busnesau'n uniongyrchol a gofyn pa gymorth yr oedd ei angen arnynt, gan gynnwys a oedd parcio neu ffactorau eraill yn wraidd y problemau, yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth pen desg neu fuddsoddi mewn prosiectau nad oedd eu heffaith yn sicr.

Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn ceisio ymweld ag enghreifftiau o arfer da ledled Cymru er mwyn dysgu o brosiectau ac ymyraethau llwyddiannus. Eglurwyd bod yr adroddiad dan sylw wedi canolbwyntio'n benodol ar ganol trefi ac felly nad oedd y ffigurau ynddo'n rhoi darlun cyflawn o holl waith yr Adran. Nodwyd nad oedd y ffigurau, er enghraifft, yn cynnwys grantiau cymunedol a rhaglenni eraill a oedd yn cael eu gweinyddu gan wasanaethau gwahanol o fewn yr Adran, a bod llawer o grwpiau mewn ardaloedd gwledig yn derbyn cefnogaeth drwy'r ffrydiau hynny.

Pwysleisiwyd rôl busnesau a grwpiau lleol yn y broses o adfywio canol trefi. Nodwyd bod partneriaethau lleol yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r Cynlluniau Creu Lleoedd er mwyn cydlynu'r cynlluniau gweithredu a chefnogi sefydliadau lleol i weithredu prosiectau. Cyfeiriwyd at gynllun peilot y flwyddyn flaenorol ar gyfer cynghorau tref a chymuned, a nodwyd ei fod wedi bod yn gymharol lwyddiannus ac y datblygwyd cynllun tebyg ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Nodwyd bod y gymuned fusnes yn bartner allweddol a bod y Gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod llais busnesau lleol a'r sector preifat yn cael ei gynnwys mewn partneriaethau lleol. Pwysleisiwyd mai'r busnesau eu hunain oedd yn y sefyllfa orau i egluro'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu. Pwysleisiwyd bod y Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn wasanaeth cymharol fach ac nad oedd yr adroddiad yn cynnwys gwaith ehangach yr Adran megis cymorth busnes a digwyddiadau. Mynegwyd y farn bod angen symud oddi wrth ganolbwyntio ar grantiau yn unig ac ystyried sut y gellid cydblethu gwasanaethau a darpariaethau gwahanol o fewn canol trefi, gan gynnwys parcio ac ymateb i heriau ardrethi busnes.

Croesawyd y gwaith a amlygwyd yn yr adroddiad, gan gyfeirio'n benodol at y Gronfa ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd bod datblygiad economaidd ac adfywio yn bwysig, ond bod gwaith megis gwella llwybrau troed, llochesi bysiau, parciau chwarae a chyfleusterau lleol eraill yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd bywyd trigolion ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Nodwyd bod mesur effaith uniongyrchol gwaith adfywio economaidd yn anodd. Mynegwyd y farn y gallai data ar nifer yr ymwelwyr neu'r nifer a oedd yn cerdded drwy ganol trefi fod yn un ffordd o greu tystiolaeth fwy uniongyrchol, ond nodwyd bod unrhyw gasgliadau ynghylch effaith gweithgareddau unigol yn parhau'n rhannol ddamcaniaethol heb ddata o'r fath. Cymharwyd yr her â gwaith adfywio'r Gymraeg, gan nodi bod y ddau faes yn wynebu newidiadau cymdeithasol mawr nad oedd gan awdurdod lleol y gallu i'w rheoli'n llawn ar lefel sirol.

Pwysleisiwyd bod rôl i atal penderfyniadau gan rannau eraill o'r Cyngor rhag gwaethygu tueddiadau negyddol. Cyfeiriwyd at leoliad archfarchnadoedd a datblygiadau masnachol, gan nodi bod lleoli siopau mawr yng nghanol neu'n agos at ganol tref yn gallu cefnogi'r stryd fawr, tra bod datblygiadau ar gyrion trefi yn gallu tynnu gweithgarwch oddi wrth y canol. Cyfeiriwyd at Borthmadog a Chaernarfon fel enghreifftiau lle'r oedd cyfleusterau mawr yn agos at ganol y dref, a chymharwyd hynny â Phwllheli a Bangor lle'r oedd penderfyniadau cynllunio neu ddyrannu tir wedi arwain at fwy o ddatblygiadau ar gyrion trefi. Mynegwyd y farn y dylid rhoi sylw i hyn wrth ystyried dyraniadau tir ar gyfer archfarchnadoedd a datblygiadau tebyg yn y dyfodol.

Mewn ymateb, nodwyd bod y Gronfa Balchder Bro wedi ei sefydlu gan y Cyngor cyn i gynllun y Llywodraeth o'r un enw gael ei gyflwyno, a phwysleisiwyd bod gwella delwedd ac ansawdd trefi o fudd i'r gymuned leol. O ran mesur nifer yr ymwelwyr, adroddwyd bod gwaith wedi dechrau yn ystod y flwyddyn flaenorol i olrhain data canol trefi. Cyfeiriwyd at broffil canol trefi Gwynedd ar gyfer 2025 a nodwyd y byddai ffigurau 2025/26 ar gael yn fuan. Eglurwyd y gallai'r data ddangos tueddiadau a phatrymau dros amser, ond na fyddai'n gallu profi cysylltiad uniongyrchol rhwng gweithgaredd penodol gan y Cyngor a'r newid a welwyd. Cadarnhawyd y byddai'r gwaith o ddatblygu'r setiau data yn parhau, gyda'r gobaith y byddent yn dod yn fwy gwerthfawr wrth i dueddiadau tymor hir ddod i'r amlwg.

Cyfeiriwyd at gydweithio trawsadrannol a nodwyd bod nifer o brosiectau adfywio presennol eisoes yn cynnwys gwaith ar y cyd. Adroddwyd bod y Gwasanaeth yn cydweithio'n agos â'r Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC ar brosiectau canol trefi, ynghyd â chynlluniau ar y cyd gyda'r Adran Tai ac Eiddo. Mynegwyd y gobaith y gellid ehangu'r cydweithio hwn ymhellach er mwyn rhoi sylw i ystod ehangach o faterion.

Croesawyd gwaith yr Adran a chydnabuwyd y pwysau ariannol sylweddol a wynebwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch lefel y cydweithio rhwng adrannau wrth wneud penderfyniadau a oedd yn effeithio ar economïau lleol. Cyfeiriwyd yn benodol at y cynnydd diweddar mewn ffioedd parcio, gan nodi'r argraff nad oedd digon o drafodaeth wedi digwydd rhwng yr Adran Amgylchedd a'r Adran Economi a Chymuned cyn gwneud y newidiadau. Pwysleisiwyd na ddylai penderfyniadau o'r fath gael eu gwneud ar wahân, gan fod ffioedd parcio yn gallu cael effaith sylweddol ar fusnesau.

Nodwyd bod Gwynedd yn sir fawr ac amrywiol ac nad oedd dull unfurf yn addas ar gyfer pob ardal. Cyfeiriwyd at ymdrechion i gysoni ffioedd parcio ar draws y sir, ond mynegwyd y farn bod angen ystyried amgylchiadau lleol gwahanol wrth bennu'r ffioedd, gan fod effaith newidiadau ar fusnesau a chanol trefi yn gallu amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd.

Pwysleisiwyd ymhellach bod effaith ffioedd parcio yn gallu amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol ardaloedd a hyd yn oed rhwng meysydd parcio unigol. Rhoddwyd Llandanwg fel enghraifft, gan nodi bod un busnes bach yn dibynnu'n sylweddol ar bobl leol ac ymwelwyr a oedd yn aros am gyfnod byr i gerdded ar y traeth ac ymweld â'r caffi. Eglurwyd bod y trefniant blaenorol wedi galluogi pobl i dalu am awr, ond bod angen talu £4 am bedair awr erbyn hynny. Nodwyd nad oedd pobl leol, ac yn aml ymwelwyr ar ddiwrnodau llai ffafriol, yn dymuno aros am bedair awr, a bod colli hyd yn oed nifer fach o gwsmeriaid yn gallu cael effaith sylweddol ar fusnes a oedd yn cyflogi ychydig o bobl mewn ardal wledig. Pwysleisiwyd yr angen am well cydweithio rhwng adrannau ac am asesu effaith economaidd penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob ardal a, lle bo'n briodol, pob maes parcio unigol.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y ffordd yr oedd gwahanol drefi wedi eu diffinio yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at Harlech, a oedd ar waelod y rhestr, ac at Lanbedr a Thalsarnau nad oeddent wedi eu cynnwys. Mynegwyd pryder y gallai'r dull o flaenoriaethu buddsoddiad roi llai o bwyslais ar bentrefi a threfi llai, er bod creu neu ddiogelu hyd yn oed nifer fach o swyddi yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol mewn ardal fach. Pwysleisiwyd bod angen rhoi sylw i'r cymunedau llai yn ogystal â'r prif drefi.

Cyfeiriwyd at y gronfa ar gyfer cynghorau tref a chymuned a chwestiynwyd a oedd yr arweiniad ynghylch yr hyn yr oedd modd gwneud cais amdano wedi bod yn ddigon clir. Nodwyd bod ystod eang o brosiectau wedi derbyn cefnogaeth, gyda rhai cynghorau wedi derbyn symiau sylweddol uwch nag eraill a nifer heb dderbyn unrhyw gyllid. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr Adran wedi cysylltu â phob cyngor tref a chymuned i egluro'r cyfleoedd oedd ar gael, ac wedi cysylltu eto â'r rhai nad oeddent wedi ymateb, gan arwain at geisiadau pellach. Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw gyngor wedi cael cais wedi ei wrthod, a bod y bwriad wedi bod i roi'r rhyddid i'r cynghorau lleol benderfynu pa

brosiectau oedd fwyaf addas i anghenion eu cymunedau. Eglurwyd bod lefel y cyllid yn cael ei dyrannu ar sail poblogaeth, ac felly bod ardaloedd mwy yn derbyn mwy o arian nag ardaloedd llai.

Cwestiynwyd a oedd y cyfle i wneud cais am y gronfa yn parhau ar agor. Mewn ymateb, eglurwyd bod y cylch diweddaraf newydd gau ar ddechrau mis Gorffennaf. Nodwyd bod enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus y flwyddyn flaenorol wedi cael eu rhannu a bod cynghorau wedi cael eu hannog i gyflwyno ceisiadau. Adroddwyd bod cyllid wedi ei glustnodi ar gyfer pob cyngor tref a chymuned ar yr amod eu bod yn cyflwyno cais, a phwysleisiwyd bod rhybudd o sawl mis wedi ei roi am y cyfnod i wneud cais. Cyfeiriwyd at feysydd chwarae plant a mannau gwyrdd fel enghreifftiau o'r math o brosiectau y gellid eu cefnogi er mwyn gwella cyfleusterau cymunedol.

Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch cydweithio rhwng adrannau a thaliadau parcio, cadarnhawyd bod y sylwadau wedi eu nodi ac y byddai'r Gwasanaeth yn awyddus i ddatblygu'r gwaith trawsadrannol ymhellach dros y misoedd dilynol.

O ran y diffiniad o'r gwahanol drefi, eglurwyd nad oedd y Gwasanaeth wedi ceisio creu diffiniad newydd o ganol tref, ond wedi defnyddio'r fframwaith a oedd eisoes wedi ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd bod y cynllun yn adnabod Bangor fel canolfan fanwerthu is-ranbarthol, Caernarfon, Porthmadog a Phwllheli fel canolfannau manwerthu trefol, ynghyd â nifer o ganolfannau manwerthu lleol. O fewn ardal y Parc Cenedlaethol, nodwyd bod Dolgellau a'r Bala yn cael eu hadnabod fel canolfannau gwasanaeth lleol, gydag Aberdyfi a Harlech yn aneddiadau gwasanaeth. Pwysleisiwyd bod angen bod yn ymwybodol y gallai trefi llai wynebu heriau mwy, ac mai dyna un o'r rhesymau dros fonitro nifer yr unedau gwag ar draws yr holl drefi. Nodwyd y gallai canran uchel o unedau gwag mewn tref benodol roi sail i ystyried ymyrraeth bellach.

Cyfeiriwyd at y data eiddo gwag, gan nodi nad oedd y ffigur a roddwyd ar gyfer Harlech yn ymddangos yn cyd-fynd â'r sefyllfa ar lawr gwlad.

Mewn ymateb, eglurwyd bod Swyddog Eiddo Gwag yn ymweld â phob canol tref ym mis Mai bob blwyddyn ac yn cyfrif yr unedau gwag ar y llawr gwaelod. Nodwyd bod yr ardal a gaiff ei hystyried yn seiliedig ar ffin canol y dref yn y polisïau cynllunio, ac felly y gallai fod yn ardal gymharol gyfyng. Eglurwyd bod y wybodaeth wedyn yn cael ei rhannu gyda'r Uned Ymchwil ac yn cael ei haddasu lle bo angen. Eglurwyd nad oedd y system yn berffaith, ond ei bod wedi ei mabwysiadu oherwydd nad oedd dull cyson arall o adnabod eiddo gwag mewn ardaloedd lleol. Pwysleisiwyd mai ei phrif werth oedd darparu ciplun cyson o flwyddyn i flwyddyn er mwyn gallu adnabod tueddiadau. Cadarnhawyd bod y data ar gyfer Harlech yn ymwneud â chanol y dref yn ôl y diffiniad cynllunio.

Cyfeiriwyd at yr heriau ehangach a oedd yn wynebu busnesau lleol, gan gynnwys adeiladau mawr gwag megis cyn dafarndai neu siopau a oedd wedi gadael canol trefi. Nodwyd bod y sefyllfa economaidd wledig, newidiadau economaidd ehangach, diffyg arian ym mhocedi trigolion a chynnydd mewn costau ynni oll yn effeithio ar hyfywedd busnesau lleol. Cyfeiriwyd at gymorth ardrethi annomestig fel un ffordd y gallai'r Cyngor gynorthwyo busnesau i gymryd eiddo gwag.

Gofynnwyd am ddiweddiariad ynghylch adeilad gwag, Gwesty'r Corbett Arms, yn Nhywyn, gan nodi'r gost barhaus i drethdalwyr a'r pryder ynghylch faint o amser yr oedd y mater wedi ei gymryd i'w ddatrys. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod gwaith yn digwydd ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi. Eglurwyd bod materion yn ymwneud â bywyd gwyllt wedi effeithio ar y gwaith, a chydabuwyd bod yr adeilad yn broblem sylweddol yr oedd y Cyngor wedi ei hetifeddu.

O ran eiddo gwag yn fwy cyffredinol, nodwyd bod y Gwasanaeth eisoes yn gweithio gyda datblygwyr a pherchnogion drwy amrywiaeth o gynlluniau grant. Nodwyd bod cysylltu â rhai perchnogion yn anodd, yn enwedig ym Mangor, gan fod nifer yn byw tu allan i'r ardal neu hyd yn oed y tu allan i Gymru. Mynegwyd pryder bod rhai unigolion yn

prynu eiddo am bris cymharol isel, yn eu cadw fel asedau ac yn caniatáu iddynt ddirywio. Nodwyd o ganlyniad bod angen rhoi sylw i opsiynau gorfodi.

Eglurwyd bod cynllun grant ar waith ym Mangor, ond cydnabuwyd bod cyfyngiadau i'r hyn y gellid ei gyflawni drwy grantiau yn unig. Adroddwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau mwy rhagweithiol, gan gynnwys a allai'r Cyngor brynu, adfer a lesu adeiladau yn uniongyrchol, neu gydweithio â phartneriaid lleol i wneud hynny. Nodwyd y byddai goblygiadau i ddull o'r fath, ond y gallai roi mwy o reolaeth dros eiddo problemus.

Croesawyd y gronfa gymunedol a nodwyd ei bod wedi gweithio'n dda i nifer o gynghorau cymuned gwledig. Cwestiynwyd a allai cwmnïau cymunedol di-elw, a oedd yn gweithredu siopau, caffis neu fentrau eraill ac yn creu swyddi lleol, fod yn gymwys i wneud cais. Mewn ymateb, nodwyd y gellid ystyried y mater yn y dyfodol, ond eglurwyd mai prif ddiben y gronfa benodol oedd gwella delwedd cymunedau drwy gynghorau tref a chymuned, yn hytrach na darparu cymorth economaidd uniongyrchol i fusnesau. Nodwyd bod cronfeydd eraill ar gael a allai fod yn fwy addas ar gyfer mentrau o'r fath.

Cyfeiriwyd at syniad a oedd wedi ei godi ynghylch defnyddio maes parcio aml-lawr ym Mangor fel safle parcio a theithio ar gyfer Ysbyty Gwynedd, gyda'r posibilrwydd y gallai hynny ddenu rhagor o bobl i ganol y ddinas. Nodwyd nad oedd sicrwydd y byddai'r syniad yn ymarferol, ond mynegwyd y farn bod angen bod yn barod i ystyried syniadau gwahanol a dulliau newydd o ddenu pobl i ganol trefi.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- **Gofyn i'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned drafod ffioedd meysydd parcio ac effaith newid oriau gorfodaeth mewn meysydd parcio ar yr economi leol gyda'r Aelodau Cabinet a'r adrannau perthnasol.**

7. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2026/27

Cyflwynwyd rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar gyfer 2026/27 i'w mabwysiadu.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cyfeiriwyd at hyd y drafodaeth ar yr Adroddiad Perfformiad Cyllid yn gynharach yn y cyfarfod, gan nodi bod nifer fawr o gwestiynau wedi eu codi. Mynegwyd y farn y gallai fod yn fwy priodol, lle bo modd, i adroddiadau perfformiad gael eu gosod tua diwedd cyfarfodydd yn hytrach nag ar y dechrau. Nodwyd bod aelodau'n tueddu i fod yn arbennig o weithgar wrth godi cwestiynau ar ddechrau cyfarfod, ac y gallai newid trefn yr eitemau gynorthwyo i reoli amser y Pwyllgor yn well.

Mewn ymateb, nodwyd bod trefn yr adroddiadau perfformiad yn amrywio rhwng cyfarfodydd, a bod yr adroddiadau wedi eu gosod tua diwedd rhai cyfarfodydd eisoes. Cadarnhawyd y gellid newid trefn yr eitemau yn y dyfodol pe byddai'r Pwyllgor yn dymuno i adroddiadau perfformiad gael eu hystyried tua diwedd y cyfarfod.

Cwestiynwyd a oedd y trefniadau presennol ar gyfer craffu ar berfformiad wedi cael eu hadolygu ers eu cyflwyno, gan nodi bod yr adroddiadau'n creu cryn faich gwaith i aelodau ac yn cymryd cyfran sylweddol o amser cyfarfodydd. Cwestiynwyd a oedd unrhyw asesiad wedi ei gynnal i weld a oedd y drefn yn fwy neu'n llai effeithiol na'r trefniadau blaenorol. Mewn ymateb, nodwyd bod sylwadau wedi eu cyflwyno drwy'r Fforwm Craffu a bod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch ffurf yr adroddiadau. Nodwyd bod gormod o wybodaeth weithiau'n gallu effeithio ar effeithiolrwydd craffu, a bod sylwadau aelodau am y trefniadau blaenorol yn cael eu hystyried. Eglurwyd nad oedd hynny'n golygu y byddai newid sylweddol o reidrwydd, ond bod y trefniadau'n cael eu hadolygu.

Cwestiynwyd a oedd modd cynyddu nifer y cyfarfodydd craffu yn ystod y flwyddyn er mwyn cynyddu capasiti'r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mewn ymateb, eglurwyd bod hyn yn dibynnu ar yr adnoddau oedd ar gael, ynghyd â'r angen i gynnal ymchwiliadau craffu a grwpiau tasg a gorffen. Nodwyd bod y mater yn un y gellid ei ystyried ymhellach.

Mynegwyd pryder bod yr adroddiadau perfformiad yn lleihau'r amser oedd ar gael i graffu ar eitemau eraill, yn ogystal â chreu swm sylweddol iawn o waith darllen i aelodau. Mynegwyd y farn y dylid ystyried dychwelyd at y drefn flaenorol lle'r oedd aelodau craffu yn mynychu cyfarfodydd Herio Perfformiad, ond gyda threfn fwy ffurfiol ar gyfer adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Nodwyd bod manteision wedi bod i'r drefn flaenorol, er bod rhai cyfarfodydd Herio Perfformiad wedi eu canslo oherwydd diffyg argaeledd swyddogion. Nodwyd bod y trefniant presennol yn fwy tryloyw gan fod y gwaith craffu'n digwydd mewn cyfarfod cyhoeddus, ond bod y baich amser yn sylweddol.

Mynegwyd gwrthwynebiad i osod terfyn amser rhy gaeth ar drafodaethau. Pwysleisiwyd, er y gallai cyfarfodydd fynd yn hir, ei fod yn bwysig bod aelodau'n cael cyfle i godi eu materion yn hytrach na theimlo'n rhwystredig oherwydd nad oedd cyfle iddynt gyfrannu.

Mynegwyd y farn nad oedd y system graffu bresennol yn gweithio mor effeithiol ag y gallai. Cyfeiriwyd at drafodaethau blaenorol ynghylch newid strwythur craffu a gofynnwyd am eglurhad o'r modelau eraill a oedd wedi cael eu hystyried. Mewn ymateb, nodwyd bod awdurdodau lleol yn gweithredu modelau gwahanol, a bod y trefniadau yng Ngwynedd wedi cael eu hadolygu yn dilyn gwaith Archwilio Cymru. Eglurwyd bod angen rhoi amser i'r newidiadau presennol gael eu gweithredu a'u gwerthuso, a nodwyd bod etholiad i'w gynnal ym mis Mai a fyddai'n arwain at aelodau newydd yn ymuno â'r Cyngor, ac felly bod angen cadw hyn mewn cof wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol.

Cwestiynwyd a oedd dogfennau blaenorol ar y modelau craffu amgen ar gael i'w rhannu gydag aelodau. Cadarnhawyd bod adroddiadau wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Cyngor Llawn, ac y gellid eu rhannu.

Mynegwyd y farn y gallai cyflwyno cwestiynau ymlaen llaw ar adroddiadau perfformiad a derbyn ymatebion ysgrifenedig fod yn ffordd arall o leihau amser trafod, yn amodol ar yr amser oedd ar gael i baratoi'r adroddiadau. Mewn ymateb i hyn, mynegwyd pryder y byddai trefn o'r fath yn cyfyngu ar allu aelodau i ofyn cwestiynau dilynol a oedd yn codi o ymatebion swyddogion neu gyfraniadau aelodau eraill. Pwysleisiwyd bod modd cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig yn uniongyrchol i swyddogion neu Aelodau Cabinet beth bynnag, ac mai un o brif fanteision cyfarfod craffu oedd gallu datblygu'r drafodaeth yn fyw.

Mynegwyd y farn y gallai fod gwerth mewn is-bwyllgorau craffu i roi mwy o sylw i faterion adrannol.

Cyfeiriwyd at yr eitemau Addysg a oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer mis Rhagfyr, a mynegwyd pryder bod adroddiadau perfformiad diweddar wedi cynnwys nifer fawr o fesurau ond ychydig iawn o wybodaeth uniongyrchol am gyrhaeddiad disgyblion, eu canlyniadau, eu safonau llythrennedd a rhifedd a'u sgiliau craidd. Pwysleisiwyd bod gan aelodau, fel rhieni corfforaethol a llywodraethwyr, gyfrifoldeb i graffu ar gyrhaeddiad disgyblion a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gyflawni eu potensial. Mynegwyd y farn y dylai data ar gyrhaeddiad, gan gynnwys canlyniadau TGAU yn y pynciau craidd, gael ei gynnwys yn yr adroddiad perfformiad ym mis Rhagfyr.

Nodwyd bod y Pwyllgor eisoes wedi gwneud argymhelliad mewn cyfarfod blaenorol i ystyried cynnwys gybodaeth a data am gyrhaeddiad disgyblion mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol. Eglurwyd bod cyfyngiadau Llywodraeth Cymru ar ba ddata y gallai'r Adran Addysg ei gyhoeddi, ond y byddai'r Adran yn cael ei hatgoffa o'r cais ac yn cael ei holi ynghylch pa wybodaeth yr oedd modd ei ddarparu.

Mynegwyd y farn y dylai'r Pwyllgor ystyried craffu ar y trefniadau sicrwydd a'r broses o baratoi adroddiadau Cabinet mewn materion cyfreithiol cymhleth, yn sgil y materion a'r costau a ddeilliodd o Gyfarwyddyd Erthygl 4. Mewn ymateb, nodwyd bod yr eitem wedi ei gynnwys yn y rhestr o faterion posibl i'w craffu yn ystod 2026/27 ond nad oedd yr eitem wedi cael ei flaenoriaethu. Cyfeiriwyd at waith craffu diweddar gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ac argymhellion y pwyllgor yng nghyswllt yr angen i sicrhau derbyn cyngor cyfreithiol allanol priodol a bod risgiau'n cael eu hystyried yn llawn.

Mynegwyd syndod nad oedd y mater wedi cael ei ystyried yn flaenoriaeth, o ystyried y costau, y risg ariannol a'r risg i enw da'r Cyngor. Nodwyd mai'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi oedd â chyfrifoldeb dros graffu ar y Gwasanaeth Cyfreithiol, a mynegwyd y farn y dylai'r Fforwm Craffu roi ystyriaeth bellach i'r mater.

Ystyriwyd pryd fyddai'n amserol i dderbyn diweddariad ar weithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion. Daethpwyd i'r casgliad y dylai'r Cadeirydd a'r Ymgynghorydd Craffu drafod a chytuno pryd y dylid rhaglennu'r eitem.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2026/27.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 yb a daeth i ben am 3:30 yp

Cadeirydd